# Cenn@d

MEDI 15 2021 | YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* | RHIF 29


## Newid Hinsawdd – ein hymateb ni!

Wrth i'r byd baratoi ar gyfer cynhadledd bwysig COP26 a gynhelir yn Glasgow fis Tachwedd, lle y disgwylir i brif arweinyddion y gwledydd ddod ynghyd i drafod effaith newid hinsawdd, rydym fel Cristnogion wedi bod yn ymgyrchu a lobïo arweinwyr a llywodraethau i weithredu ar fyrder er sicrhau dyfodol diogel ar gyfer y blaned. Mae nifer o fudiadau Cristnogol wedi bod yn flaengar yn gwthio'r agenda, a bydd llawer ohonom wedi arwyddo deiseb neu ysgrifennu llythyr at AS i ddangos cefnogaeth, gan nodi ein bod am weld gweithredu cyflym ac effeithiol ar newid hinsawdd. Diolch am bawb sydd wedi cefnogi'r ymdrech, a cofiwch fod cyfle o hyd i wneud hynny. Ewch i wefannau rhai o'r elusennau dyngarol / amgylcheddol i ddarganfod mwy am beth sy'n bosib.

Ond a oes angen i ni fel unigolion ac eglwysi wneud mwy? Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn holi'r cwestiwn, 'Tybed a ydym wedi mynd i gredu bod codi ein llais ac arwyddo deiseb yn ddigon – mai mater o gefnogi ymgyrch ac arwyddo deiseb yw'r oll sydd ei angen, a'n bod ni yn rhydd o orfod ymateb yn fwy radical na hynny?' Bydd llawer ohonom yn llafar ac yn bleidiol i'r ymgyrch newid hinsawdd, ond pa mor amlwg y mae hynny i'w weld yn y ffordd rydym yn byw o ddydd i ddydd. Pa gamau rydym ni'n barod i'w cymryd heddiw i wneud gwahaniaeth i'r her enfawr sy'n wynebu'r byd dros y blynyddoedd a'r degawdau nesaf? Weithiau, mae codi llaw, dweud 'Ie', ticio bocs a gwneud datganiad neu 'hoffi' ar Facebook yn bethau sy'n llawer rhy hawdd i'w gwneud. Ond, oni bai ein bod ni ein hunain yn fodlon derbyn goblygiadau hynny, ac yn barod i newid arferion er lles y byd, mae'r pethau hyn yn gwbl ddibwrpas.

Y gwir plaen yw fod yna lawer mwy y gall pob un ohonom ei wneud, yfory nesa – heddiw hyd yn oed, er mwyn troi'r llanw ar newid hinsawdd. Beth am i ni i gyd ymrwymo i wneud mwy – camau bach, efallai, ond camau angenrheidiol os ydyn ni am weld newid er gwell? Dyma rai syniadau, wedi eu casglu o ffynonellau gwahanol, am bethau y gallwn ni i gyd eu gwneud, a fydd yn dystiolaeth wych i'r byd wrth groesawu'r gynhadledd i Glasgow ymhen deufis.

Beth am drafod y rhestr isod mewn cyfarfod yn y capel, neu weithdy mewn Ysgol Sul? Mae hyn yn berthnasol ar gyfer pob oed, a gall fod yn ffordd o gael holl deulu'r eglwys ynghyd. Beth am wneud hyn yn brosiect am y ddau fis nesa, yn arwain at COP26? Dyma rai pethau i'w hystyried ...




### Sut gallwn ni reoli ein defnydd o ddŵr?

Gyda llawer o'r byd yn profi sychder difrifol, mae angen i ni ystyried ein defnydd o ddŵr. Gall arferion syml, fel diffodd y tap wrth i ni frwsio ein dannedd neu gael cawodydd byrrach, arbed miloedd o alwyni dros flwyddyn. Efallai fod angen dyfrio'r ardd yn llai aml, neu greu gardd gan ddefnyddio planhigion sy'n gwrthsefyll sychder. Prinder dŵr fydd argyfwng mwya'r byd yn y dyfodol, medd sawl gwyddonydd blaengar. A heb os, mae cael mynediad at ddŵr glân yn un o heriau mwyaf y gwledydd sy'n datblygu.

### Sut gallwn ni leihau gwastraff bwyd yn y cartref?

Mae tua thraean o'r holl fwyd sy'n cael ei gynhyrchu i'w fwyta gan bobl ledled y byd yn cael ei wastraffu. Yn amgylcheddol, mae'n cyfrif am oddeutu 8% o holl allyriadau nwyon tŷ gwydr yn fyd-eang a 28 miliwn tunnell o'r gwrteithiau a'r plaleiddiaid a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth. Mae angen i ni i gyd brynu llai wrth siopa, a dysgu rhewi bwyd dros ben.

### Oes ffordd i ni brynu llai o ddillad 'ffasiynol' bob tymor?

Mae cynhyrchu dillad wedi dyblu yn ystod y 15 mlynedd diwethaf ym Mhrydain, gyda dillad ar gyfartaledd yn cael eu gwisgo llawer llai a'u taflu'n gynt nag erioed o'r blaen. Ffasiwn yw un o'r diwydiannau mwyaf gwastraffus yn y byd, gyda hanner y dillad sy'n cael eu creu yn para llai na 6 mis cyn cael eu taflu am y ffasiwn ddiweddaraf.

### Beth am ailgylchu mwy – ac yn amlach?

Efallai fod hyn yn rhywbeth rydyn ni wedi dysgu ei wneud o oedran ifanc. Ond oes yna fwy y gellir ei wneud i ofalu bod llai yn mynd i'r gwastraff cyffredinol bob wythnos? Oes ffordd i ni eto leihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi?

### Sut gallwn ni atgyweirio yn lle lluchio neu daflu pethau?

Mae yna un ffordd arbennig o beidio prynu mwy o bethau, sef dysgu sut i drwsio neu ddiweddaru'r hen. O ddillad i ddodrefn, offer trydanol a nwyddau o bob math, yn hytrach na lluchio bob tro, beth am drwsio, peintio ac uwchgylchu?

### Oes modd teithio llai a theithio'n fwy gwyrdd?

Beth am gerdded, reidio beic, rhannu teithio, neu ddefnyddio mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus? Cerbydau tanwydd ffosil, fel ceir a thryciau, yw'r ail ffynhonnell fwyaf o lygredd nwyon tŷ gwydr.

### Beth am leihau ein defnydd o ynni yn y cartref?

Daw mwy nag un rhan o dair o'n hallyriadau o'n defnydd o ynni yn ein cartrefi a'n busnesau. Beth am ddiffodd a thynnu'r plwg pan nad yw rhywbeth yn cael ei ddefnyddio? Mae defnyddio golau ynni effeithlon a nwyddau gwyn gradd AA yn help, a chadw llygad ar y mesurydd clyfar (smart meter) yn help i'n haddysgu.

### Oes modd prynu mwy yn lleol, neu dyfu cnydau gartref?

Mae gan fwyd sy'n cael ei dyfu a'i brynu'n lleol lai o bellter i deithio, sy'n golygu llai o allyriadau ôl troed carbon, yn ogystal â bod yn ffordd o gefnogi'r ffermwyr lleol. Mae prynu bwyd a dyfir yn lleol o farchnad y ffermwyr yn ffordd wych o leihau eich ôl troed carbon, ond mae tyfu eich bwyd eich hun yn mynd ag ef i'r lefel nesaf.

### Beth am fynd ati i blannu coeden?

Mae plannu coed yn un ffordd o wrthbwyso'r allyriadau rydyn ni'n eu cynhyrchu. Mae pob coeden a blennir mewn gardd yn ffordd o leihau'r allyriadau hynny.

### Sut gallwn ni leihau ein defnydd o blastig?

Daw bron i hanner yr holl lygredd a geir yn y môr o weithgareddau sy'n digwydd ar dir. Mae llygredd plastig yn drychineb amgylcheddol ac mae angen i ni wneud rhywbeth yn ei gylch yn awr. Beth am brynu llysiau a ffrwythau rhydd, a dewis cynnyrch mewn archfarchnadoedd sydd heb blastig? Mae poteli plastig yn fwy cyffredin nag y buon nhw erioed, gyda dros 4 biliwn o boteli dŵr yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn.

### Beth am osod paneli pŵer solar?

Os ydych chi mewn sefyllfa i wneud hynny, buddsoddwch mewn paneli solar ar gyfer eich cartref. Os nad ydych, beth am chwilio am gwmnïau ynni sy'n cynhyrchu ynni gwyrdd?

### Ai car trydan fydd eich car nesaf?

Angen car newydd? Beth am ei wneud yn un trydan? Mae EVs ar gynnydd ac yn dod yn fwy fforddiadwy bob blwyddyn.

### Prynu unwaith ac am byth?

'Pryn yn rhad, pryn eilwaith' yw'r hen ddywediad. Gan fynd yn ôl i ddyddiau ein hen neiniau a theidiau, pan oedden nhw'n prynu rhywbeth, roedd hynny am oes. I fyw yn gynaliadwy, yna mae angen prynu dillad, offer, dodrefn, a phethau nad ydyn nhw'r tu hwnt i'w hatgyweirio ac sy'n cael eu tirlenwi yn y pen draw.

### Gallwn addysgu ein hunain am effeithiau newid hinsawdd


Beth am ymchwilio ar y we? Mae gwybodaeth y bydysawd o fewn ein cyrraedd! Byddai'n llesol i ni i gyd dreulio amser yn darllen erthyglau ar newid hinsawdd a'i effeithiau. Gall hyn yn y pen draw ein cyflyru i fod yn fwy gweithredol ac angerddol o ran newid y byd.


**Y Silff Lyfrau**
**Trysorau hen a newydd!**
**Tudalen 4**

**Lle i enaid gael llonydd**
**Tudalen 5**

**Cnewyllyn yr Efengyl**
**Tudalen 7**


# Bedydd yn Ninas Dinlle



Y nos Wener olaf ym mis Awst cynhaliwyd gwasanaeth bedydd gan eglwys Caersalem, Caernarfon, ar draeth Dinas Dinlle. Yn cael ei fedyddio ar y noson yr oedd Siôn Gwyn o'r Waunfawr. Bu Siôn yn mynychu clwb ieuenctid y capel ers nifer o flynyddoedd ac mae hefyd wedi derbyn bendith o fynychu cyrsiau yng Ngholeg y Bala. Ar ôl sgwrsio ag arweinwyr yr eglwys, penderfynodd ei bod yn amser gwneud proffes gyhoeddus o'i ffydd yn Iesu Grist.

Roedd hi'n noson odidog o haf ac fe ddaeth tyrfa niferus ynghyd i glywed Siôn yn rhannu ei dystiolaeth, i ganu rhai emynau ac yna tystio i'w fedydd trochiad yn y môr. Roedd yn noson gofiadwy i bawb oedd yno ac yn destun diolchgarwch a gobaith i bawb ar ddechrau tymor newydd yng ngwaith a thystiolaeth yr eglwys.






## Gair gan y Golygyddion

Bellach aeth chwe mis heibio ers lansio *Cenn@d*, ac ers hynny cyhoeddwyd rhifyn yn wythnosol bob bore Mercher ar y we. Mae'n braf gweld gofalaethau a chyfeillion yn rhannu'r wybodaeth am rifynnau ar y cyfryngau cymdeithasol, a braf hefyd yw derbyn sylwadau am ambell stori ac erthygl.

Cyn hir bydd grŵp llywio *Cenn@d* yn cyfarfod i gloriannu a gwerthuso rhifynnau'r chwe mis cyntaf, a byddai'n dda gennym glywed gennych chi, y darllenwyr, hefyd wrth i ni gynllunio ar gyfer y chwe mis nesaf. Byddem fel golygyddion yn falch iawn o unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu feirniadaeth. Oes 'na gyfresi neu erthyglau sydd wedi taro deuddeg? Oes 'na bethau y teimlwch sydd ar goll ar hyn o bryd?

Fel golygyddion, rydym yn ymwybodol fod yna brinder newyddion gan eglwysi lleol, ond mae hynny efallai'n adlewyrchiad o'r cyfnod Cofid rydym wedi bod ynddo. Cofiwch ein bod yn awyddus iawn i dderbyn unrhyw newyddion neu straeon lleol – mae newyddion am weithgarwch eglwysig bob amser yn cael ei groesawu.

Gyda diolch,
Aled, Huw a Watcyn

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol*** – Nos Sul, 19 Medi am 7:30yh
Ar Sul Heddwch, byddwn yn nodi 20 mlynedd ers yr ymosodiadau terfysgol yn America ar 11 Medi 2001 a chawn gyfle i fyfyrio ar arwyddocâd y diwrnod arswydus hwnnw dau ddegawd yn ôl. Daw'r canu mawl o'r Deml Heddwch yng Nghaerdydd. *Dolen i gylchlythyr digidol Dechrau Canu mis Medi:*
https://spark.adobe.com/page/833Z6PJ7vQCGu/

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***, Dydd Sul, Medi 19eg am 7:30yb a 4:30yp
Non Vaughan Williams sy'n cofio emynwyr a chyfansoddwyr a fu farw 50 mlynedd 'nôl.

Sul, 19 Medi – ***Oedfa Radio Cymru,*** 12:00yp
Gwasanaeth yng ngofal Helen Wyn Jones, Bae Colwyn.

# Galw am ddiwygio Cristnogaeth er mwyn ei gwneud yn berthnasol ar gyfer yr 21ain ganrif

Mae llai a llai o Gymry yn datgan eu bod nhw'n grefyddol erbyn heddiw, a llai fyth yn mynychu addoldy yn rheolaidd. Gwelir nifer fawr o gapeli'n cau ac yn troi'n adfeilion neu'n cael eu troi yn ail gartrefi ledled y wlad. Oes yna le i Gristnogaeth yn ein bywydau yn yr 21ain ganrif?


Yr wythnos hon cyhoeddir cyfrol fach sy'n ceisio ateb y cwestiwn yma, gan bwysleisio hefyd werthoedd Cristnogaeth a'r ffaith eu bod mor angenrheidiol heddiw ag erioed. Mae *Pantycelyn a'n picil ni heddiw* gan Cynog Dafis (Y Lolfa, £4.99) wedi'i ysgrifennu ar ffurf llythyr ac yn gobeithio ysgogi diddordeb o'r newydd yng ngwaith Williams Pantycelyn, gan agor deialog â'r genhedlaeth ifanc ynghylch ailddiffinio Cristnogaeth.

Meddai'r awdur, Cynog Dafis:

> Ers blynyddoedd mae rhyw awydd wedi bod arnaf i ysgrifennu rhywbeth am Williams Pantycelyn. Yn sgil amgylchiadau arbennig fy magwraeth, yn fab i bregethwr, a'r dylanwad mawr gafodd byd y capel ar fy mhrofiadau ffurfiannol, mae Williams Pantycelyn wedi tyfu i fod yn dipyn o obsesiwn personol gen i. Dros y blynyddoedd rwyf wedi peidio â derbyn bodolaeth Duw goruwchnaturiol ond rwyf wedi para i lynu wrth Gristnogaeth ac yn dal i gredu yn ei gwerth yn ein hoes ni. Mae angen i ni gofio effaith ddofn a phellgyrhaeddol Pantycelyn a'i bethau ac, yn fy marn i, mae gan Bantycelyn rywbeth o bwys i'w ddweud wrthon ni heddiw.

Roedd William Williams, Pantycelyn, yn ffigwr blaenllaw a blaengar ym mudiad y Diwygiad Methodistaidd yn y 18fed ganrif. Wrth astudio i fod yn ddoctor, newidiodd llwybr ei fywyd ar ôl iddo glywed Howell Harries yn pregethu yn Nhalgarth. Ac aeth ymlaen i fod yn bregethwr, yn llenor ac yn brif emynydd Cymru.

Mae *Pantycelyn a'n picil ni heddiw* yn archwilio credoau Pantycelyn a Richard Price, cyd-efrydydd i Bantycelyn yn Nhalgarth, athronydd moesegol, gweinidog Anghydffurfiol, mathemategydd, diwygiwr gwleidyddol ymysg pethau eraill, a fu'n weithgar yn y 18fed ganrif. Trwy archwilio gwaith y ddau ffigwr ac wrth ystyried picil y ddynoliaeth heddiw, mae Cynog Dafis yn cynnig bod angen ailddiffinio Cristongaeth, gan awgrymu y bydd angen moeseg newydd wedi'i 'seilio ar ddwysbarch at fyd natur'.




Ychwanegodd yr awdur:

> Mae'n edrych yn debyg bod yr union Gynnydd sydd wedi gweddnewid ein bywydau (ond nid pawb ohonon ni), wedi'n tywys ar lwybr seithug ac yn awr yn cyrraedd *impasse*. Fe ddyblodd poblogaeth y byd yn ystod fy oes i, ac mae gofynion y boblogaeth o ran nwyddau, bwydydd, cartrefi, gofod, a moethau hefyd wedi cynyddu ar garlam. Mae yna argyfwng ym mherthynas ecsbloetiadol dynoliaeth a gweddill y byd sy'n bygwth ein hawddfyd, os nad ein goroesiad, ni fel rhywogaeth.

Wrth gloi, mae Cynog Dafis eto'n troi at dylanwad Pantycelyn:

> Rhaid i ni sylweddoli bod angen mwy o ostyngeiddrwydd a diolchgarwch am yr hyn sydd ganddom ac mai rhodd yw popeth sy'n eiddo i ni. Trwy ras yr ydyn ni'n cael y fraint o gael byw. Gall Cristnogaeth feithrin y ffordd yma o weld y byd a byw ynddo. Mae angen i ni ailddysgu rhyfeddu at amrywioldeb natur, fel y gwnaeth Pantycelyn. Ac fel y gwnaeth Pantycelyn, bydd codi'n golygon tua'r nefoedd, tua phellterau'r cosmos, yn peri inni, yng ngeiriau un o'i gymrodyr, "synnu fyth ar synnu" wrth syllu ar yr eangderau a cheisio dirnad y dirgelwch eithaf sy'r tu hwnt iddynt. Trwy ddefodau megis ymdawelu, gweddïo, cyd-ganu, rhannu bara a gwin y mae Cristnogaeth yn meithrin yr agwedd meddwl yna. Dichon y byddai addasu ac ychwanegu at y defodau cyfarwydd hynny yn pwysleisio pa mor berthnasol ydyn nhw i anghenion ein cyfnod ni.

*Mab i weinidog yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw'r awdur, wedi'i fagu yn Aberaeron a Chwm Nedd. Graddiodd yn y Saesneg yng Nghgoleg y Brifysgol, Aberystwyth, a bu'n athro Saseneg ym Mhontardawe, Castellnewydd Emlyn, Aberaeron a Llandysul, cyn cael ei ethol yn Aelod Seneddol (1992–2000) ac yn Aelod Cynulliad (1999–2003). Cafodd radd MAdd yn Aberystwyth yn 1978 ac mae'n gymrawd Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.*

**Mae *Pantycelyn a'n picil ni heddiw* gan Cynog Dafis ar gael nawr yn eich siop Gymraeg leol neu ar www.gwales.com am £4.99**




Coleg Trefeca yw cartref hanesyddol ac amgueddfa henebion sy'n ymwneud â Howel Harris (1714-1773) a'r Diwygiad Methodistaidd. Cymeriadau eraill sydd hefyd yn gysylltiedig â Threfeca yw Daniel Rowland, William Williams Pantycelyn, George Whitefield, a John a Charles Wesley.

Fe'i lleolir mewn ardal o harddwch naturiol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gydag atyniadau amrywiol eraill o fewn cyrraedd hawdd i bentref Trefeca.

Ar gyfer Drysau Agored, bydd ymweliad amgueddfa hunanarweiniad, ac mae croeso i chi gael picnic ar y tir. Bydd Capel Bach ar gael ar gyfer gweddi breifat. Bydd y siop ar agor.

Cyfeiriad - Lôn y Coleg, Trefecca, Aberhonddu, LD3 0PP.

Lleoliad - Mae Coleg Trefeca ym mhentref Trefeca, ar y B4560 rhwng Talgarth a Llangors. Y Fenni yw'r orsaf reilffordd agosaf (18 milltir).

Mae lifft grisiau a thoiledau hygyrch ar gael. Yn ogystal â digon o le parcio, llwybrau lefel ac arwynebedd glaswelltog.



# Y Silff Lyfrau



## Trysorau hen a newydd!

Yn ddiweddar derbyniais gyfrol i'w hadolygu o wasg yng Nghymru nad oeddwn yn gyfarwydd â hi. Enw'r wasg yw Faithbuilders ac fe'i lleolir yn Pontnewynydd, Pont-y-pŵl. Teitl y gyfrol hardd, 300 tudalen, hon a gyhoeddwyd yn 2019 yw *The Hidden Unity of the Bible: The Use of the Old Testament in the New Testament* (978-1-913181-16-1), a'i phris yw £12.99. Bu ei hawdur, Pieter J. Lalleman, yn darlithio am ugain mlynedd yng ngholeg enwog y Bedyddwyr, Spurgeon's, yn ne Llundain. Ond ymddengys ei fod wedi dychwelyd bellach yn ddarlithydd yn un o brifysgolion yr Iseldiroedd o ble mae'n hanu. Yn wir, yn iaith y wlad honno y cyhoeddwyd y gyfrol hon gyntaf.


Mae ynddi 32 o benodau a rennir fel a ganlyn. Neilltuir y deg pennod gyntaf i drafod naill ai penodau unigol yn yr Hen Destament, megis Genesis 22 a salmau unigol, neu adrannau o lyfrau, megis Eseia, penodau 6–12; mae'r ymdriniaeth o'r penodau anodd hynny, Sechareia 9–14, yn arbennig o ddefnyddiol. Yn wir, haera mai hwn yw'r proffwyd a danbrisir o ran ei ddylanwad ar y Testament Newydd yn fwy nag unrhyw un arall.

Yn dilyn, ceir deuddeg pennod sy'n ymdrin â phersonau neu themâu penodol o'r naill Destament a'r llall. Yn yr adran hon trafodir y gwrthgyferbyniad rhwng Adda ac Iesu Grist, y dilyw a'r enfys, Dafydd, y Deml, bugail a defaid, Jona, yr afon, y rhifau 3, 4, 7 a 12, Ioan Fedyddiwr, dywediadau 'Myfi yw' Iesu, bedydd a Swper yr Arglwydd, a Babel neu Fabilon.

Neilltuir naw pennod olaf y gyfrol i drafod defnydd awduron neu lyfrau gwahanol y Testament Newydd o'r Hen Destament. Cloir y cyfan ag Epilog sy'n crynhoi ymagwedd yr awdur hwn a ddaeth yn drwm dan ddylanwad yr ysgolhaig Americanaidd R. B. Hays.

Cred ef y dylid nid yn unig archwilio cysylltiadau'r rhannau o'r ysgrythur y cyfeirir atynt yn y Testament Newydd, ond y dylid hefyd ddod yn ymwybodol o'r adleisiau a'r atseiniau a all ymddangos wrth inni bori ynddynt.

Drwy gydol y gyfrol darperir digonedd o dystiolaeth i gefnogi bwriad yr awdur i ddadorchuddio 'undod cuddiedig y Beibl'. Yn wir, mae'n gyforiog o esiamplau o'r Hen Destament sy'n goleuo llawer ar y Testament Newydd, er nad oes unrhyw ymgais i baratoi casgliad llawn o'r enghreifftiau o'r defnydd o'r Hen Destament gan y Testament Newydd. Atgoffir y darllenydd yn gyson nad dyfyniadau uniongyrchol o'r Hen Destament sy'n dangos dylanwad yr Hen ar y Newydd; eithr y mae'r dylanwad yn ymestyn yn llawer ymhellach na hynny. Da hefyd yw'r pwyslais cyson a osodir ar yr angen inni barchu cyd-destun gwreiddiol y testunau yn yr Hen Destament y troir atynt. Hawlia'r awdur hwn mai dyna yw arfer awduron y Testament Newydd, er, mae'n rhaid imi ddweud, fy mod yn amau a yw hyn yn wir ym mhob achos.




Ar fater awduraeth llyfrau'r Testament Newydd, megis epistolau Paul, ceidwadol yw safbwynt yr awdur. Cyffelyb yw ei ymagwedd tuag at y dywediadau a briodolir i Iesu yn Efengyl Ioan.

Mae'n amlwg y bwriadwyd y gyfrol hon i fod yn werslyfr i ddechreuwyr yn y maes, oherwydd ni chymerir dim yn ganiataol o ran gwybodaeth o'r pwnc.

Ar yr un pryd, yn sicr gall darllenwyr â mwy o gefndir ysgrythurol ddysgu llawer o'i astudio gan fod anogaeth gyson iddynt archwilio cymariaethau rhwng yr Hen a'r Newydd nad oeddent wedi eu hystyried o'r blaen.

Ysgrifennir y cyfan mewn arddull reit gartrefol, a bydd y mynegai llawn o'r testunau ac o'r themâu o'r Beibl o gymorth mawr i'r darllenydd. Defnyddiol yn ogystal yw'r mynych dablau a ymgorfforir yn y testun ac sy'n dangos mewn chwinciad debygrwydd geiriol a themâu cymharol rhwng gwahanol rannau o'r Beibl.

*John Tudno Williams*

# Lle i enaid gael llonydd

**Ar ddiwedd ein taith drwy Fenis cawn ein tywys gan Aled Lewis Evans at ddelwedd olaf ein myfyrdodau.**

Ar gyfer ein delwedd olaf o fy hoff fan encil, sef Fenis, rhaid mynd i'r Scuola Grande di San Rocco sy'n cynnwys murlun Tintoretto 'Y Croeshoeliad' (*La Crocifissione*).

Down at y Groes – sy'n bont a gynigir i bob un ohonom ddoe a heddiw.

Rhaid oedd ymweld â'r murlun enfawr hwn sy'n llefaru â ni heddiw. Fel y gwragedd a aeth at y bedd gwag, fe es i'n blygeiniol iawn i weld y murlun yn fanwl, a chael cyfle i syllu arno ar fy mhen fy hun: mawredd celfyddydol y Dadeni a'i rym yn dylifo o ganrif i ganrif. Dyma gelf sy'n cyfathrebu heddiw, ac a fydd yn parhau i wneud mewn milflwyddiant arall.

Mae pererinion yr oesoedd wedi cyrraedd Fenis mewn blinder, ond wedi cael adferiad ac adfywiad, ac yn fwy na dim datguddiad wrth iddynt edrych ar y trysorau celfyddydol rydw i wedi sôn amdanynt. Ac, wrth gwrs, mae llawer mwy i'w gweld.

Yn y gerdd 'Y Rheswm' soniais am ddychwelyd yn unswydd i Fenis i weld y murlun hwn.



La Crocifissione, Jacopo Tintorretto (1519–94)

Y Rheswm
(Dychwelyd i weld murbaentiad o'r Croeshoeliad gan Tintoretto yn Scuola San Rocco, Fenis)

Dyma'r rheswm
y dychwelais i Venezia:
i gael syllu'n hir
ar y Croeshoeliad ar y mur.
Natur arbennig y Crist
ar waethaf
ei wrthwynebwyr oll,
y Serenissima.

Mae'n eich tagu
wrth gamu i mewn;
yng nghanol nenfydau'r gor-sblander
mae pŵer Hwn yn glir
a digyfnewid
ers iddo gael ei baentio ar y mur.

Picellau, pryder, pwyntio bys,
tywyllwch dros y byd;
cuddio crynu, cysgodion,
claddu,
cynnwrf ceffylau,
croesau'r lladron yn cael eu dymchwel,
a rhywbeth sydd i barhau.
Gobaith anghyffredin i Venezia
â'i heglwysi trymion ar dir bregus
yn yr hen Groes newydd hon.

Rhwygir llen ein bydolrwydd
yn yr ystafell ar ben y grisiau;
esgorir ar ddagrau'r canrifoedd
wrth godi ein pennau
tuag ato.

Grŵp niferus y tywysydd o Eidalwr
wedi eu tawelu gan hwn
y bore 'ma a phob bore arall.
Hwythau'n symud ymlaen
fel y gwnes i y tro cyntaf.

Ond bydd rhai yn dychwelyd
yn gynnar y bore
yn dawelach unigolion
i gael syllu fry.

Roedd John Ruskin yn ei ddagrau wrth iddo syllu ar y campwaith: 'beyond all analysis and above all praise' oedd ei ganmoliaeth iddo.

Adeg y Pasg rydw i wedi ymweld â Fenis fynychaf. Ychydig o ddyddiau i aildiwnio i'r hyn a brofais yno'n ifanc. Anghofia i fyth offeren nos Sul y Pasg yng Nghadeirlan San Marco ac eistedd yn wylaidd iawn islaw'r aur, a'r nenfwd ysblennydd efo pobl o bob rhan o'r byd a oedd ar berwyl tebyg.

Mae cyfnodau fel hyn o aildiwnio ac ailwerthfawrogi yn hanfodol – lle i enaid gael llonydd sydd wastad yn wanwyn yn fy nghalon.



# Yr Ysbryd Glân a'r Eglwys

**Fel ysgogiad i feddwl am natur ein heglwysi yn y cyfnod hwn o gynnull eto ac ailadeiladu, rhoddir yma'r penodau hynny o lyfr R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (1972), sy'n sôn am waith yr Ysbryd yn yr Eglwys. Bydd chwech ohonynt yn y gyfres.**

## Rhif 1 – Cynnull yr Eglwys

Wrth adrodd hanes lledaenu Cristnogaeth o Jerwsalem i Rufain, rhydd Luc le amlwg iawn i'r Ysbryd Glân. Byddai mor briodol galw ei lyfr yn Actau'r Ysbryd Glân â'i alw'n Actau'r Apostolion. Ym mhob cam a gymerwyd yn y genhadaeth, mae dibyniaeth yr arweinwyr a'r eglwysi ar yr Ysbryd Glân yn amlwg. Ceisir yn awr ddisgrifio gwaith yr Ysbryd yng nghenhadaeth gychwynnol yr Eglwys.

Yn gyntaf, yr oedd arweinwyr yr Eglwys wedi'u llenwi â'r Ysbryd Glân. Pan fu grwgnach ymhlith y Cristnogion Groegaidd yn Jerwsalem, penderfynodd yr apostolion benodi swyddogion i ofalu am eu buddiannau. A'r cymwysterau gofynnol oedd eu bod yn dda eu gair ac "yn llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb" (Actau 6:3). Un o'r gwŷr hyn oedd Steffan y dywedir yn arbennig amdano ei fod yn ŵr "llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân" (Actau 6:5). A phan ddaeth awr ei ferthyrdod, "efe, yn gyflawn o'r Ysbryd Glân a edrychodd yn ddyfal tua'r nef; ac a welodd ogoniant Duw" (Actau 7:55). Dyma'r enghraifft gyntaf o'r Diddanydd yn cynnal Cristion wrth iddo dystiolaethu â'i einioes dros y ffydd.

Yn ail, yr Ysbryd Glân oedd yn nodi dynion ar gyfer gweinidogaeth yr Efengyl. Pan oedd y genhadaeth i'r Cenhedloedd ar fin dechrau o Antiochia, "dywedodd yr Ysbryd Glân, Neilltuwch i mi Barnabas a Saul i'r gwaith y gelwais hwynt iddo" (Actau 13:2). Pan oedd Paul yn annerch henuriaid Effesus ym Miletus, y mae'n eu hatgoffa fod difrifoldeb eu swydd yn tarddu o'u penodiad gan yr Ysbryd Glân: "Edrychwch gan hynny arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn olygwyr" (Actau 20:28).

Yn drydydd, penderfynwyd lledaeniad daearyddol y genhadaeth gan yr Ysbryd Glân. Yr Ysbryd Glân a ddanfonodd Paul a Barnabas ar eu taith i borthladd Seleucia i hwylio am Gyprus (Actau 13:4). Gwelir yr un arweiniad yn hanes Phylip. Pan welodd drysorydd y frenhines Candace yn eistedd ac yn darllen yn ei gerbyd, yr Ysbryd a'i gorchmynnodd, "Dos yn nes, a glŷn wrth y cerbyd yma" (Actau 8:29). A'r un modd, wedi iddo fedyddio'r gŵr, "Ysbryd yr Arglwydd a gipiodd Phylip ymaith" (Actau 8:39). Nid yn unig yr oedd yr Ysbryd yn agor meysydd newydd, yr oedd hefyd yn gwahardd datblygiadau oedd yn atyniadol yng ngolwg yr apostolion. Wedi i Paul, gyda Silas a Thimotheus, dramwyo drwy'r ardal oedd yn gyffredin i Phrygia a Galatia, daeth chwant arnynt groesi i dalaith Asia a bwrw i gyfeiriad Effesus (Actau 16:6). Ac felly dyma droi tua'r gogledd gan groesi'r mynyddoedd ac anelu am dalaith Bithynia gyda'i dinasoedd gwareiddiedig fel Nicomedia a Nicea. Ond pan oeddynt yng nghyffiniau Mysia, rhwystrwyd hwy rhag teithio ymhellach oherwydd "ni oddefodd Ysbryd yr Iesu iddynt" (Actau 16:7). Nid yw Luc yn esbonio sut yn union yr oedd yr Ysbryd yn trosglwyddo'r wybodaeth iddynt, ai trwy argyhoeddiad personol yn eu meddyliau, neu trwy amgylchiadau anffafriol, neu, o bosibl, trwy genadwri gan y "proffwydi" yn yr eglwysi. Beth bynnag y moddion, nid oedd amheuaeth yn eu meddwl am y neges.

Yn bedwerydd, mae'r sôn am y proffwydi yn ein hatgoffa mai un o ddoniau'r Ysbryd Glân yn llyfr yr Actau yw rhagfynegi'r dyfodol. Un o'r proffwydi yr oedd Luc yn bersonol yn gyfarwydd ag ef oedd Agabus. Daeth ef, yng nghwmni proffwydi eraill, i Jerwsalem a darogan "trwy yr Ysbryd, y byddai newyn mawr dros yr holl fyd" (Actau 11:28). Dywed Luc i hynny ddigwydd yn ystod teyrnasiad yr Ymherodr Claudius (O.C. 41–54) a gwyddom o ffynonellau eraill fod yr Ymerodraeth wedi dioddef amryw gynaeafau trychinebus yn y cyfnod hwn. Daw Agabus i'r stori drachefn. Pan oedd Paul ar ei daith i Jerwsalem a Luc yn un o'r cwmni, treuliodd dipyn o amser yn nhŷ Phylip, un o'r seithwyr a benodwyd i ofalu am y Cristnogion Groegaidd (Actau 6:3). Pwy ddaeth i mewn ond Agabus a chyda gweithred broffwydol a symbolaidd dyma fo'n clymu ei ddwylo a'i draed â gwregys Paul a dweud, "Hyn a ddywed yr Ysbryd Glân; y gŵr biau y gwregys hwn a rwym yr Iddewon fel hyn yn Jerwsalem" (Actau 21:11).

Yn bumed, yr Ysbryd Glân a ddangosodd i'r Eglwys fod yr Efengyl ar gyfer y byd cyfan. Y stori allweddol yw honno am ymweliad Pedr â thŷ Cornelius yng Nghesarea. Yr oedd yr Ysbryd yn arwain Paul yn bersonol, yn un peth (Actau 10:19), a diau y dylem ddeall "angel Duw" yng ngweledigaeth Cornelius (Actau 10:3) fel ffurf ar weithgarwch yr Ysbryd Glân. Ond pwysicach oedd dylanwad pregeth Pedr yn nhŷ Cornelius – "syrthiodd yr Ysbryd Glân ar bawb oedd yn clywed y gair". A'r Iddewon Cristnogol a oedd yno a "synasant am dywallt dawn yr Ysbryd Glân ar y Cenhedloedd hefyd" (Actau 10:44–5). Os oedd yr Ysbryd Glân yn creu ffydd yng nghalonnau pobl nad oeddynt yn Jerwsalem, pwy oedd yr apostolion i ymatal rhag pregethu'r Efengyl iddynt? A phan ddywedodd yr apostolion ar ôl eu Cyngor yn Jerwsalem, "gwelwyd yn dda gan yr Ysbryd Glân a ninnau" (Actau 15:28), nid defnyddio'r Ysbryd Glân fel rhyw fath o sêl ychwanegol ar benderfyniadau eu pwyllgor yr oeddynt ond cydnabod yr hyn a wnaeth yr Ysbryd Glân eisoes yng nghalonnau cenedl-ddynion fel Cornelius. Mynegi eu parodrwydd i ddilyn yr Ysbryd yr oeddynt, nid awgrymu fod sêl a bendith yr Ysbryd Glân yn dilyn yn anorfod benderfyniadau'r cyngor apostolaidd.

Ac yn olaf, fel yr addawodd Iesu Grist, bu'r Diddanydd yn lladmerydd iddynt o flaen cynghorau (Actau 4:8). Magodd y cenhadon hyfdra: "hwy a lanwyd oll o'r Ysbryd Glân a hwy a lefarasant air Duw yn hyderus" (Actau 4:31). A mwynhau'r gwaith; wrth weld llwyddiant taith genhadol gyntaf Paul, y "disgyblion a gyflawnwyd o lawenydd, ac o'r Ysbryd Glân" (Actau 13:52). Mwy trawiadol fyth, dywed Luc fod yr eglwysi'n llwyddo yn Jwdea, Galilea a Samaria, "a chan rodio yn ofn yr Arglwydd, ac yn niddanwch yr Ysbryd Glân, hwy a amlhawyd" (Actau 9:31). Mewn Groeg, fel yn y Gymraeg, "diddanwch" yn yr adnod yna yw'r hyn y mae "diddanydd" yn ei roi.

Prin y mae angen tanlinellu'r wers. Wrth gyferbynnu'r eglwysi cynnar â'n heglwysi ni yng Nghymru, ni allwn ond sylwi gyda thristwch pa mor dlawd a di-ynni a di-lawenydd ydym yn ein hanwybyddu cyson ar arweiniad yr Ysbryd Glân.

*Darlleniadau:*

1 Corinthiaid 12:13–18; Actau 6:3,5; 8:29–39; 13:2,4,52.

*Llyfrau:*


G. S. Hendry, *The Holy Spirit in Christian Theology* (1957), pen. iii*;* E. H. Palmer, *The Holy Spirit* (1964), pen xii; Abraham Kuyper, *The Work of the Holy Spirit* (1900, adargraffiad 1966), 179–83; Lewis Probert, *Nerth y Goruchaf* (Wrecsam, 1906), 275–89; Barth, *Church Dogmatics*, IV/2, 614–726*; J. Cynddylan Jones, Cysondeb y Ffydd*, IV, pen. ix a x.

# Cnewyllyn yr Efengyl



Mewn erthygl flaenorol buom yn edrych ar y defnydd yr oedd Iesu yn ei wneud o'r teitl 'Mab y Dyn', gan bwysleisio bod ganddo awdurdod arbennig oddi wrth ei Dad. Cysylltwyd hyn â phroffwydoliaeth Daniel (Daniel 7:14).

Beth tybed allwn ni ei ddysgu am Iesu wrth ddarllen yr hyn mae Mathew wedi ysgrifennu amdano?

Cawn hanes cynnar Iesu, ei enedigaeth wyrthiol a'i gyfnod fel ffoadur yn yr Aifft cyn i'r teulu wneud eu cartref yn Nasareth. Wedyn hanes Ioan Fedyddiwr, yn paratoi'r ffordd ar gyfer Iesu.

Pan ddechreuodd Iesu bregethu roedd yn pwysleisio'r angen am ymateb edifeiriol gan y rhai oedd yn credu ynddo (Mathew 4:17). Mae'n werth sylwi pa mor bwysig oedd hyn yn ei olwg. Ceir nifer o enghreifftiau ganddo'n pwysleisio'r angen am inni edifarhau. Dechreuodd geryddu'r trefi lle y gwnaed y rhan fwyaf o'i wyrthiau, am nad oeddent wedi edifarhau (Mathew 11:20). Ac mae'r un pwyslais i'w weld gan Luc:

Os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch oll yn yr un modd (Luc 13:3,5).

> Fel hyn y mae'n ysgrifenedig: fod y Meseia i ddioddef, ac i atgyfodi oddi wrth y meirw ar y trydydd dydd, a bod edifeirwch, yn foddion maddeuant pechodau, i'w gyhoeddi yn ei enw ef i'r holl genhedloedd, gan ddechrau yn Jerwsalem (Luc 24.46–7).

Cawn ein hatgoffa o'r pwyslais hwn bob tro byddwn yn derbyn y bara a'r gwin mewn oedfa gymun:

> Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff. Cymerodd gwpan, ac wedi diolch fe'i rhoddodd iddynt gan ddweud, "Yfwch ohono, bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed, gwaed y cyfamod, a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau." (Mathew 26:26–8)

Mae'r geiriau a ddefnyddir gan offeiriad wrth gynnig y bara a'r gwin yn werth sylwi arnynt. Rwy'n dyfynnu allan o Lyfr Gweddi Gyffredin yr Eglwys yng Nghymru:

> Corff ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a roddwyd drosot ti, a gadwo dy gorff a'th enaid i fywyd tragwyddol. Cymer a bwyta hwn, er cof farw o Grist drosot ti, ac ymborth arno yn dy galon trwy ffydd, gan roddi diolch.
>
> Gwaed ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a dywalltwyd drosot ti, a gadwo dy gorff a'th enaid i fywyd tragwyddol. Yf hwn, er cof dywallt gwaed Crist drosot ti, a bydd ddiolchgar.

Mae pawb sy'n gwrando ar raglen *Ar eich cais* ar nos Sul wedi clywed canu 'Gwahoddiad' nifer o weithiau. Byrdwn yr emyn yw diolch pechadur am fuddugoliaeth Calfaria (*Caneuon Ffydd*, 483).

Un o garolau mwyaf poblogaidd y Cymry yw'r emyn sy'n dechrau â'r geiriau: "Wele, cawsom y Meseia, / cyfaill gwerthfawroca' 'rioed" ac yn gorffen â'r geiriau: "Frodyr, dewch, llawenhewch, / diolchwch iddo, byth na thewch!" Diolch am fuddugoliaeth Calfaria yw byrdwn yr emyn hwn hefyd (*Caneuon Ffydd*, 441).

> Rho imi, nefol Dad,
> yr Ysbryd Glân yn awr
> wrth geisio cofio'r gwerth a gaed
> yng ngwaed ein Iesu mawr.
>
> Gad imi weld y wawr
> a dorrai ar ei loes
> a'r heddwch a gofleidiai'r byd
> yn angau drud y groes.
>
> Ei gwpan ef, mor llawn
> a chwerw ar ei fin,
> a droes yn rhin ei gariad mawr,
> i mi yn awr yn win. (*Caneuon Ffydd*, 629)

*Tom Williams*
*Dinbych*
(*I'w barhau*)

## Apêl Timothy Richard

Diolch am gefnogaeth eglwysi'r Bedyddwyr i apêl y BMS

Mae Apêl Timothy Richard bellach wedi dod i ben, gydag eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru yn codi'r cyfanswm anhygoel o £37,783. Mewn blwyddyn ddigon heriol i gynnal apêl, mae ymateb yr eglwysi wedi bod mor hael.

Mae BMS wedi ysgrifennu i ddweud: "Mae hwn yn ganlyniad gwych ac roeddem wrth ein bodd yn derbyn y cyfraniad hwn! Rydym yn ddiolchgar iawn am bopeth y mae UBC wedi'i wneud i hyrwyddo'r prosiect hwn. Gyda'r plant sy'n ffoaduriaid yn profi dioddef o'r fath, mae addysg yn rhoi'r gobaith iddyn nhw a'u rhieni am ddyfodol gwell. Diolch i chi, a'r holl eglwysi ac unigolion sydd wedi cefnogi'r apêl hon, am sefyll gyda'r plant hyn a darparu ar gyfer eu hanghenion mewn amgylchiadau mor enbyd."

Mae modd gwylio neges fideo bersonol gan Dr Kang San Tan, Cyfarwyddwr Cyffredinol BMS World Mission drwy glicio isod:

https://ubc.cymru/timothy-richard-diolch/

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## O na bawn yn fwy tebyg…

### Gweddi

> "Y nefoedd yw fy ngorsedd, a'r ddaear fy nhroedfainc; ple, felly, y codwch dŷ i mi, a phle y caf fan i orffwys? Fy llaw i a wnaeth y pethau hyn i gyd a'r eiddof fi yw pob peth," medd yr ARGLWYDD.

Arglwydd Dduw, datgenaist dy fawredd a chyhoeddi nad oes modd i'n hadeiladau, ein traddodiadau, ein cynlluniau, na'n dealltwriaeth bitw ohonot dy gaethiwo. Dyro i ni'r gostyngeiddrwydd i gydnabod na all ein hymdrechion gynnwys dy ogoniant. Ac o goleddu syniadau bychain ohonot cyffeswn i ti ein bod hefyd wedi tanbrisio ein gwrthryfel i'th erbyn. Maddau i ni mewn trugaredd grasol, a chaniatâ i ni glywed dy addewid: 'Ond fe edrychaf ar y truan, yr un o ysbryd gostyngedig, ac sy'n parchu fy ngair.' Down atat gan gyfaddef ein tlodi; rho i ni'r ysbryd gostyngedig hwnnw sy'n ein tywys yn ei dro i barchu dy air gan fyw i ti bob dydd. Amen.

### Emyn 302 'Dyma gyfarfod hyfryd iawn'

### Darllen Marc 9:30–7

Byddwn yn canu o bryd i'w gilydd fod 'Eglwys Dduw fel dinas wych / yn deg i edrych arni'. A daw'r cwestiwn i'n blino. Pryd welaist ti unrhyw olwg ar Eglwys Iesu Grist yn ei gogoniant yng Nghymru? Onid y corff hwnnw sy'n prysur ddadfeilio a welaist ti, ei harddwch a'i hasbri, ei chyffro a'i dwyster yn cilio o fis i fis? Onid dyna a welaist ti? Ac onid dyna a welodd dy blant? A'th wyrion?

Mae'n wir y medrwn ddarllen am gyfnodau gwahanol, mwy llewyrchus, yn ein hanes.

Cofiaf ymweliad â chartref preswyl yn Nhreorci yn ystod haf 1980 a chyfarfod â gwraig oedrannus iawn. (Pan ydych chi'n 20 oed, mae unrhyw un dros 30 yn hen!) Ond er na chofiaf mo'i henw, mi gofiaf iddi sôn am ei phrofiad o ymweliad gras Duw adeg Diwygiad 1904–5 â Chwm Rhondda. Erbyn i mi symud i odre'r Mynydd Mawr roedd rhai oedd yn cofio'r deffroad yn prinhau yn gyflym. Yn fuan, stori ail-law oedd y sôn am y tywalltiadau nefol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Plant y dychweledigion bellach ar sail atgofion eu rhieni oedd yn dal i fedru adrodd am y digwyddiadau rhyfeddol. Bellach, hen basiodd y genhedlaeth honno hefyd.

Byddai llawer o 'wyrion' y diwygiad yn medru sôn yn ddiweddarach am ddyddiau pan oedd 'mwy o fynd ar grefydd', am oedfaon pregethu niferus, a chymanfaoedd canu yn eu hwyl. Ond, hyd yn oed i'm cenhedlaeth i, atgofion am oes a fu, am ddylanwad a giliodd oedd yr hanesion.

Bellach, adlais fel sŵn y môr mewn cragen ar ben mynydd yw'r fath siarad.

Erys y cwestiwn cychwynnol. Hyd yn oed yn nhymor y 'mynd ar grefydd' a'i dylanwad diwylliannol pellgyrhaeddol, a welwyd yr eglwys yn ei gogoniant?

A beth yw 'gogoniant' neu awdurdod neu ddylanwad, go iawn? Mae geiriau Iesu'n ein gorfodi i ailasesu'n mesur o 'fawredd' neu o 'ddylanwad' neu 'ogoniant'.

### Disgwyliadau gwahanol

Cofiwn, o edrych ar ein myfyrdod yr wythnos diwethaf, fod Iesu wedi dechrau sôn am ei ddioddefaint a'i atgyfodiad, ac na fynnai Pedr ddychmygu'r fath ddyfodol i 'Feseia Duw'.

Byddai wedi bod yn rhwydd tybied, a'i wisg yn ddisglair wyn mewn gogoniant nefol, fod Iesu ei hun wedi camddeall ei ddyfodol. Onid oedd Moses ac Elias yn ymddangos ger ei fron mewn gogoniant?

Ond, ar lawr y dyffryn, wedi i'r weledigaeth ogoneddus ar Fynydd y Gweddnewidiad gilio, cyfeiriodd Iesu ei ddisgyblion drachefn at y dioddefaint a'r goncwest a'i hwynebai. Mor groes i syniad y disgyblion am 'ogoniant' oedd y dyfodol a ddisgrifiai Ef fel na fedrai ei ddisgyblion amgyffred ei eiriau. Ac roedd ei eiriau mor ddwys fel na fynnai ei ddisgyblion ei holi ymhellach.

Ar hyd canrifoedd cred brwydrodd eglwys Iesu Grist â'r syniad o Grist a chroes fel buddugoliaeth. Onid ffolineb oedd 'buddugoliaeth' drwy farw hunanaberthol Iesu a 'choncwest' nefol drwy 'fethiant' bydol?

Oherwydd iddi gamddeall ystyr 'llwyddiant' a chredu bod gorfodaeth ormesol yn 'ogoniant' iddi, tybed na syrthiodd carfanau o'r eglwys i'r demtasiwn o gredu y gallent gyflawni a chyfiawnhau creulondeb yn enw'r gwas dioddefus hwn?

### Gwerthoedd gwahanol (adn 30–7)

Faint o helyntion y byd, neu drafferthion a welwyd mewn bywyd capeli ac eglwysi, neu o gweryla, a brofwyd mewn cymunedau a achoswyd gan bobl oedd am daflu eu pwysau o gwmpas er mwyn eu dyrchafu eu hunain?

Ym mhresenoldeb Iesu ei hun tewi a wna ein hawydd at hunanddyrchafiad neu wag ymffrost (adn 34). Pwy yw'r mwyaf? Y cryfaf? Y mwyaf dylanwadol? Gosodir ein hymffrost a'n dealltwriaeth o beth yw ystyr 'mawredd' yn y glorian a'i gael yn brin.

Mawredd, meddai Iesu, yw'r gallu i beidio â mynnu'r lle blaenaf. Yn wir, golyga feddiannu awydd i fod y mwyaf parod i wasanaethu. Ymhen ychydig wythnosau fe fyddai'r Meistr ei hun yn lapio cadach am ei ganol i olchi traed ei ddisgyblion gan ymgnawdoli ei ddysgeidiaeth ei hun (Ioan 13).

Mawredd, yn ôl Iesu, yw diniweidrwydd plentyn bach. Mawredd yw derbyn rhai bychain, a bod a lle i rai bychain yn ein plith. Mawredd yw caniatáu i'r Arglwydd ein cofleidio. Mawredd yw bod yn ymwybodol o hyn: na wyddom yr atebion ar ein pennau ein hunain; bod angen cwmnïaeth a chymdeithas disgyblion eraill arnom; bod angen arnaf i wasanaethu ac i dderbyn cymorth eraill er mwyn i mi dyfu'n debycach i'r Gwaredwr buddugoliaethus ei hun.

Rhai blynyddoedd yn ddiweddarach roedd tensiynau a chroestynnu rhwng Euodia a Syntyche yn peryglu tystiolaeth eglwys Philipi. Ac mewn ychydig o eiriau pellgyrhaeddol cynigiodd yr Apostol Paul esboniad rhyfeddol ar eiriau tebyg i eiriau Iesu yn ein darlleniad heddiw. Ynddynt cawn ein cymell i ystyried beth yw gwir fawredd a gogoniant.

Na, nid rhywbeth ysgafn yw bod yn debyg 'i Iesu Grist yn byw', a 'llwyr gysegru 'mywyd / i wasanaethu Duw'.

### Darlleniad Philipiaid 2:5–11

### Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, cyffeswn ger dy fron fod cymaint o'r hyn a ystyriwn yn 'fawredd' mewn gwirionedd yn rhith o hunan-dyb. Dysga ni beth yw natur buddugoliaeth, nerth a mawredd, a thrwy hynny godi ein croes i'th ganlyn, ymostwng i wasanaethu ein gilydd, a dysgu beth yw ystyr derbyn rhai bychain i'n plith yn dy enw.

Arglwydd, gogonedda dy hun a thriga ynom drwy dy Ysbryd Glân. Amen.

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru